



DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	Uwch-ddarlithydd mewn Troseddeg a Phlismaona Proffesiynol
Lleoliad:	Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd
Oriau:	37 awr yr wythnos
Daliadaeth:	Parhaol
Gradd:	8 AB
Cyflog:	£51,283 - £59,421 y flwyddyn
Yn atebol i:	Deon yr Ysgol

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddangosol, nid yn rhagnodol, a bydd cydbwysedd y dyletswyddau yn unol â'r contract cyflogaeth.

Crynodeb o'r Rôl:

Bydd deiliad y swydd yn datblygu ac yn cyfrannu'n bennaf at gyflwyno'r Radd BSc (Anrh) Troseddeg. Efallai y bydd yn ofynnol hefyd i ddeiliad y swydd, sy'n ddibynnol ar anghenion staffio, ddatblygu, darparu a chyfrannu at gyrsiau ar y rhaglen BA (Anrh) Plismaona Proffesiynol neu MSc mewn Troseddeg ac Ymchwiliadau Troseddol. Yn ogystal, gall deiliad y swydd gymryd rhan mewn cyfraniad i raglenni eraill yr Ysgol a addysgir fel y bo'n ofynnol. Bydd y postholder yn goruchwyllo ymchwil a lleoliadau myfyrwyr fel y bo'n briodol. Bydd gofyn i chi ymgymryd â gweinyddiaeth sy'n gysylltiedig ag addysgu, rheoli rhaglenni a dyletswyddau eraill yn ôl cyfarwyddiadau Deon yr Ysgol. Disgwylir i chi ymgysylltu â recriwtio myfyrwyr a darparu cyngor ar gyfleoedd gyrfa. Disgwylir i chi hefyd gymryd rhan mewn ymchwil a gweithgareddau ysgolheigaidd sy'n cyfrannu at flaenoriaethau strategol yr Ysgol.



PROFFIL Y RÔL

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddangosol, nid yn rhagnodol, a bydd cydbwysedd y dyletswyddau yn unol â'r cytundeb cyflogaeth.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Cymorth addysgu a dysgu

- Dylunio, datblygu a chyflwyno ystod o raglenni astudio (weithiau ar gyfer cyrsiau cwbl newydd) ar wahanol lefelau.
- Adolygu cynnwys a deunyddiau cwrs yn rheolaidd, gan ddiweddarau yn ôl yr angen.
- Datblygu a chymhwyso technegau a deunydd addysgu priodol sy'n creu diddordeb, dealltwriaeth a brwdfrydedd ymhlith myfyrwyr.
- Sicrhau fod dyluniad a darpariaeth cyrsiau yn cydymffurfio â safonau a rheoliadau ansawdd y brifysgol a'r adran.

Ymchwil ac ysgolheictod

- Arwain cynigion a phrosiectau ymchwil a/neu arloesi sydd â'r potensial i gynhyrchu incwm, rheoli cyflawniadau prosiectau, cyflawni allbynnau a sicrhau effaith.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid prifysgol i nodi ffynonellau cyllid ymchwil ac arwain y broses o sicrhau arian.
- Rheoli cyflwyno prosiectau ymchwil unigol a / neu gydweithredol yn ôl amser ac o fewn y gyllideb.
- Cymhwyso gwybodaeth a gafwyd o ymchwil ac arloesi yn ogystal ag ysgolheictod i ddysgu ac addysgu, a gweithgareddau allanol priodol. Arwain y gwaith o ddylunio a chynhyrchu cyhoeddiadau a adolygir gan gymheiriaid a/neu allbynnau ymarferwyr, a/neu ledaenu canfyddiadau ymchwil gan ddefnyddio cyfryngau priodol eraill.
- Gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau academiaidd a/neu ymarferwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol neu arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill.

Cyfathrebu

- Lledaenu syniadau cysyniadol a chymhleth i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.

Cyswllt a rhwydweithio

- Arwain a datblygu rhwydweithiau mewnol er enghraifft trwy gadeirio a chymryd rhan mewn pwyllgorau Ysgol a Sefydliadol.
- Arwain a datblygu rhwydweithiau allanol, er enghraifft, gydag arholwyr ac aseswyr allanol.
- Datblygu cysylltiadau â mudiadau allanol fel cyrff addysgol eraill, cyflogwyr a chyrrff proffesiynol i feithrin cydweithredu.

Rheoli pobl

- Rhoi arweiniad academaidd i'r rhai sy'n gweithio mewn meysydd rhaglenni, fel arweinydd cwrs neu gyfwerth, drwy, er enghraifft, gytuno ar gynlluniau gwaith i sicrhau bod cyrsiau'n cael eu darparu'n effeithiol neu drefnu gwaith tîm drwy gytuno ar amcanion a chynlluniau gwaith gan gyfeirio at y Llawlyfr Academaidd.
- Cyfrannu at ddatblygiad timau ac unigolion.
- Gweithredu fel mentor personol i gyfoedion a chydweithwyr.

Gwaith tîm

- Arwain timau o fewn meysydd cyfrifoldeb.
- Helpu i sicrhau bod timau yn yr adran yn gweithio gyda'i gilydd.
- Cymryd rhan i helpu i ddatrys gwrthdaro o fewn a rhwng timau.

Gofal bugeiliol

- Yn gyfrifol am ddelio â materion a gyfeiriwyd ar gyfer myfyrwyr yn eu rhaglenni addysgol eu hunain.
- Darparu cefnogaeth rheng flaen i gydweithwyr, gan eu cyfeirio at ffynonellau cymorth pellach os oes angen.

Menter, datrys problemau a gwneud penderfyniadau

- Datrys problemau sy'n effeithio ar ddarpariad cyrsiau o fewn eu rhaglen addysgol eu hunain ac yn unol â'r rheoliadau.
- Gwneud penderfyniadau ynghylch agweddau gweithredol eu rhaglen addysgol eu hunain.
- Cyfrannu at benderfyniadau sy'n cael effaith ar raglenni cysylltiedig eraill.
- Rhoi cyngor ar faterion fel sicrhau cydbwysedd digonol ym mhoblogaeth myfyrwyr, apwyntiad a materion perfformiad myfyrwyr a pherfformiad eraill.
- Sylw ar gyfleoedd ar gyfer datblygu cyrsiau newydd neu feysydd gweithgaredd priodol a chyfrannu at ddatblygu syniadau o'r fath.

Cynllunio a rheoli adnoddau

- Yn gyfrifol am gyflwyno'r rhaglenni addysgol eu hunain.
- Cyfrannu trwy'r timau rydych chi'n aelod ohonynt i reolaeth gyffredinol yr adran mewn meysydd fel rheoli adnoddau, busnes a chynllunio rhaglenni.
- Cymryd rhan trwy amrywiol lwybrau mewn cynllunio strategol ar lefel Ysgol a chyfrannu at brosesau cynllunio strategol y Sefydliad.
- Cynllunio a darparu rhaglenni ymgynghori neu raglenni tebyg o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael.
- Cyfrannu at reoli ansawdd, archwilio ac asesiadau allanol eraill.

Gofynion synhwyaidd, corfforol ac emosiynol.

- Cydbwysu pwysau gofynion addysgu, ymchwil a gweinyddol a therfynau amser cystadleuol.

Amgylchedd gwaith

- Yn dibynnu ar faes gwaith (e.e. labordai, gweithdai, stiwdios) gellir disgwyl iddynt gymryd cyfrifoldeb am gynnal asesiadau risg a lleihau peryglon.

Arbenigedd

- Yn ofynnol i fod yn awdurdod a gydnabyddir yn allanol yn y maes pwnc.
- Dealltwriaeth fanwl o'ch arbenigedd eich hun i alluogi datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd yn y maes a thrwy ei gymhwyso.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu i gyflawni eich contract. Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig, felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Derbynnir y bydd gan staff unigol sylfaen sgiliau a gwybodaeth arbenigol mewn perthynas â'r rôl y cawsant eu penodi iddi. Yn ogystal â hyn, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn disgwyl y bydd pob aelod o staff yn cyfrannu at weledigaeth ac ethos y brifysgol ac yn ymddwyn mewn modd proffesiynol, cwrtais, sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr/cwsmeriaid bob amser. Dylai'r holl staff roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiâu a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.



MANYLEB PERSON

Teitl y Swydd: Uwch-ddarlithydd mewn Troseddeg a
Phlisma Proffesiynol

Ysgol/Uned: Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol
Caerdydd

* Allwedd

Ff - Ffurflen gais
C - Cyfweliad
P - Prawf

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	EU HASESU GAN		
		Ff*	C *	P*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Cymhwyster lefel doethuriaeth.	✓		
	Y gallu i gyflawni Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt (cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl ac yn bendant o fewn tair blynedd i ddechrau'r gyflogaeth).	✓	✓	
	Aelodaeth o gorff proffesiynol.	✓		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	Gradd Meistr mewn Troseddeg neu ddisgyblaeth gwyddorau cymdeithasol tebyg (e.e. Seicoleg, Cymdeithaseg, Y Gyfraith)	✓		
	Statws Cymrawd fel rhan o gynllun cydnabyddiaeth broffesiynol yr Academi Addysg Uwch.	✓		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Gwybodaeth fanwl am droseddeg a chyfiawnder troseddol.	✓	✓	✓
	Cydnabyddiaeth genedlaethol/rhyngwladol mewn pwnc arbenigol a maes proffesiynol.	✓		
	Dealltwriaeth fanwl o addysgu a dysgu.	✓		
	Dealltwriaeth fanwl o ymchwil / arloesi a gweithgaredd ysgolheigaidd.	✓		
Gwybodaeth (Dymunol)	Gwybodaeth am raglenni addysgol o fewn plisma [Coleg Plisma] neu leoliad proffesiynol perthnasol arall.	✓		✓
	Gwybodaeth am ddisgyblaeth gysylltiedig megis seicoleg neu gymdeithaseg.	✓	✓	

Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Hanfodol)	Y gallu i ddylunio, datblygu a darparu ystod o raglenni ar wahanol lefelau.	✓		
	Y gallu i adolygu dyluniad rhaglenni yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiad â safonau ansawdd a rheoliadau academiaidd ac i wneud newidiadau lle bo hynny'n briodol.	✓		
	Y gallu i gyfrannu at gyflawni'r Cynllun Datblygu Ysgol a phrosesau cynllunio strategol y sefydliad.		✓	
	Y gallu i ddatblygu amcanion ymchwil, paratoi cynigion, cynnal ymchwil annibynnol, dyfarnwr a chyfrannu at asesiad cymheiriaid.	✓		
	Y gallu i nodi (er enghraifft trwy ddadansoddi gwybodaeth reoli briodol) feysydd sydd angen perfformiad gwell.	✓	✓	
	Y gallu i gyfathrebu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amryw o ffyrdd - cyflwyniadau neu arddangosfeydd mewn cynadleddau cenedlaethol neu ryngwladol, adroddiadau ar ganfyddiadau, erthyglau cyfnodolion ac ati i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.	✓	✓	✓
	Y gallu i arwain a chyfrannu at ddatblygiad timau i sicrhau perthnasoedd gwaith effeithiol a chynhyrchiol.	✓	✓	✓
	Y gallu i arwain / datblygu / gweithio ar y cyd â nifer o rwydweithiau mewnol ac allanol.	✓	✓	✓
Y gallu i gynllunio llwythi gwaith a phrosiectau a rheoli adnoddau'n effeithiol.	✓		✓	
Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Dymunol)				
Profiad a Thâl/ Di-dâl (Hanfodol)	Profiad sylweddol ar lefel uwch arweinyddiaeth mewn asiantaeth cyfiawnder troseddol (Prawf, Carchardai) neu brofiad strategig neu weithredol arreng arolygydd yr heddlu neu gyfwerth.	✓	✓	✓
	Profiad o addysgu Addysg Uwch neu gyfwerth.	✓	✓	
	Profiad amlwg o ddylunio a gweithredu ystod o asesiadau yn effeithiol.	✓		

	<p>Profiad o ddarparu arweinyddiaeth a chefnogaeth / mentora llinell gyntaf i gydweithwyr eraill.</p> <p>Profiad o gyfrannu at ddatblygu strategaethau academiaidd er enghraifft, ymchwil a menter, addysgu a dysgu.</p> <p>Profiad o reoli perfformiad trwy osod, monitro ac adolygu amcanion.</p>	✓		
Profiad â Thâl/ Di-dâl (Dymunol)				
Gofynion Eraill (Hanfodol)	Y gallu i asesu risg a gweithredu polisi / strategaeth mewn perthynas â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Safonau Ansawdd.	✓		
Gofynion eraill (dymunol)				
Sgiliau Cymraeg Gwranddo (Dymunol)	A1 - Dechreuwr Gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	✓		
Sgiliau Cymraeg Darllen (Dymunol)	A1 - Dechreuwr Gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	✓		
Sgiliau Cymraeg Siarad (Dymunol)	A1 - Dechreuwr Gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	✓		
Sgiliau Cymraeg Ysgrifennu (Dymunol)	A1 - Dechreuwr Gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	✓		